OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 1469

# Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol, Darfodol ac Arbed) (Cymru) 2013

**Cytundebau presennol: datgymwysiadau trosiannol o delerau a rhwymedigaethau penodol**

**5.**—(1) Nid yw adrannau 1(2) i (9) a 2(2) i (4) o Ddeddf 1983 yn gymwys i gytundeb presennol.

(2) Mewn perthynas â chytundeb presennol—

(i) os cychwynnir achos cyfreithiol y mae terfynu'r cytundeb yn fater sy'n codi ynddo cyn y diwrnod penodedig, nid yw paragraffau 3 a 4 (terfynu) o Bennod 3, na pharagraffau 3 i 6 o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (pa bynnag Bennod sy'n gymwys yn yr achos penodol dan sylw) yn gymwys;

(ii) nid yw paragraff 8 (ailosod cartref symudol) o Bennod 4 o Ran 1 o'r Atodlen honno yn gymwys i ofyniad bod hawl y meddiannydd i osod y cartref symudol yn arferadwy, am unrhyw gyfnod, mewn perthynas â llain arall os gwneir y gofyniad cyn y diwrnod penodedig;

(iii) nid yw paragraff 15(2) a (6) i (11) (ffi llain) o Bennod 4 o Ran 1 o'r Atodlen honno yn gymwys mewn perthynas â'r adolygiad cyntaf o'r ffi llain o dan y cytundeb hwnnw os yw dyddiad adolygu'r ffi llain, ar gyfer yr adolygiad hwnnw, o fewn 28 diwrnod i'r diwrnod penodedig;

(iv) nid yw paragraff 16 (ffi llain) o Bennod 4 o Ran 1 o'r Atodlen honno yn gymwys os cyflawnwyd gwaith mewn perthynas â gwelliant cyn y diwrnod penodedig;

(v) ni cheir gorfodi paragraff 19(c) a (d) (ymrwymiadau'r meddiannydd) o Bennod 4 o Ran 1 o'r Atodlen honno mewn perthynas ag unrhyw doriad o'r cytundeb sy'n digwydd o fewn 3 mis i'r diwrnod penodedig;

(vi) nid yw paragraff 19(e) (ymrwymiadau'r meddiannydd) o Bennod 4 o Ran 1 o'r Atodlen honno yn gymwys mewn perthynas â chostau a threuliau a dynnwyd cyn y diwrnod penodedig;

(vii) nid yw paragraff 20(f) (ymrwymiadau'r meddiannydd) o Bennod 4 o Ran 1 o'r Atodlen honno yn gymwys pan fo gwaith mewn perthynas â'r gwelliannau yn cychwyn cyn y diwrnod penodedig, neu o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod penodedig; a

(viii) nid yw paragraff 20(g) (ymrwymiadau'r meddiannydd) o Bennod 4 o Ran 1 o'r Atodlen honno yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n codi cyn y diwrnod penodedig, neu o fewn y cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r diwrnod penodedig.